**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 11eg Rhagfyr 2025 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Arwel Jones a Tina Jones,.
Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc: Denfer Morgan

**307 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr, Nigel Davies, Gary Evans, Eirlys James-Evans, Alwen Thomas ac Iwan Thomas am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**308 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9fed Hydref 2025**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9fed Hydref 2025.

**309 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

*Cyflog y Clerc (Hyd-Tach-Rhagfyr):*
Denfer Morgan - £387.94
CThEF (TWE) - £96.98

**310 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

a) Cais cynllunio A250896 - Croesfan, 6 Heol Dolanog, Ciliau Aeron. Proposed car port and garage/workshop to include demolition of existing garage

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

b) Cais cynllunio A250909 - Fferm Ty Glyn, Ciliau Aeron. Proposed dry muck store Change from slurry based system

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

c) Cyfeirnod 788205 A250352 Preswylfa, Ciliau Aeron. Mynediad newydd wedi'i greu i'r A482; gosod carafán statig a gweithrediadau peirianneg heb awdurdod – newidiadau i lefelau'r tir.

Nodwyd fod ymchwiliad Cydymffurfiaeth Cynllunio wedi'i agor gan y Cyngor Sir.

d) Cyfeirnod Mynedfa heb ei awdurdodu - Glanbran B4337

Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi cysylltu gyda’r perchennog tir i wneud cais am drwydded S184 licence am fynedfa newydd.

**311 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Nodwyd y gwybodaeth a gafwyd fod Awdurdodau’r Eglwys eu bod yn archwilio am dystiolaeth o’u perchnogaeth o’r tir a bod unigolion yn y gymuned wedi cynnig tystiolaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm